## **Dolwyddelan.org** – gwefan newydd sbon ar gyfer Dolwyddelan

Mae'r wefan gyfredol yn dod i ben, felly mae Menter Siabod wedi comisiynu gwefan newydd gan ddylunwyr gwefan lleol, ac maen nhw'n gwneud y gwaith yn rhad ac am ddim inni (gan eu bod nhw'n newydd ddyfodwyr i'r pentref).

Os allwch chi feddwl am rywbeth y dylid ei gynnwys ar y wefan, cysylltwch â Michelle yn y pafiliwn neu shaunhewitt@me.com

---

**Cyngor Cymunedol:** Gorffen cynllun gwella'r pentref.

Gyda chymorth ariannol gan Gynllun Datblygu Gwledig Conwy, mae'r cyngor cymunedol wedi gwella ychydig ar y pentref drwy:

- roi arwyddion newydd bob ochr i'r pentref;
- waith ar wal y gofeb ryfel;
- cael byrddau tresl newydd ar gyfer digwyddiadau cymunedol;
- rhoi newyddfwrdd newydd y tu allan i siop Spar fel bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd yn y cyffiniau.

… a byddwn yn gosod potiau blodau ar hyd yr A470 wrth i chi ddod i Ddolwyddelan, i roi tipyn i liw i'r lle trwy gydol y flwyddyn. Diolch mawr i Ann Fellows am ddylunio templedi addurno'r potiau coed ar gyfer y gof.

---

### Hurio'r Pafiliwn

| | Busnes/ Masnachol | Elusen/ Lleol | Aelodau |
|---|---|---|---|
| Bob Awr | £25 | £12.50 | £10 |
| Hanner Diwrnod | £50 | £25 | £15 |
| Diwrnod Llawn | £75 | £40 | £30 |

### Ar werth yn y pafiliwn:

Cardiau cyfarch
Paentiadau
Llyrau cerdded
Jane's Tasty Cakes
Diodydd poeth